

Cyngor Cymuned Bodedern



Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd
yng Nghanolfan Bro'r Ysgol, Bodedern,
Nos Fawrth, 28 Mai 2019
am 7 yr hwyr.

1. Croeso ac ymddiheuriadau.

Presennol: K Hughes **KH**, A Jones **AJ**, L Jones **LJ**, E Jones **EJ**, V Owen **VO**, OG Roberts **OGR**,
JA Roberts **JAR**, EAB Thomas **EABT**, R Owen **clerc**.

Ymddiheuriadau: C Jones **CJ**, J Ferry **JF**, B Hughes **BH**, A Ifan **AI**.

2. Datgan Diddordeb: KH ynglyn ac eitem 7.

3. Ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd ar gyfer 2019-20.

Nododd **AJ** ei ddymuniad i ymddiswyddo fel cadeirydd, ac felly etholwyd **JAR** yn gadeirydd, gyda **EJ** yn Is-Gadeirydd. Diolchodd y cyngor yn fawr iawn i **AJ** am ei gadeiryddiaeth ymroddedig ac urddasol.

4. Arwyddo cofnodion Ebrill 2019.

Derbynwyd y cofnodion fel rhai cywir. **VO** yn cynnig, **EABT** yn eilio.

5. Materion sy'n codi.


5.1 Nododd y clerc nad oedd wedi cael ymateb i'w ebost i'r cyngor unwaith eto, ond ei bod yn ymddangos fod rhywun wedi bod draw i'r fynwent i beintio llinellau ar y waliau mewn ambell i le. Y clerc i fynegi siomeddiageith y cyngor yn niffyg cefnogaeth gan y cyngor Sir, a cheisio cael cadarnhad pwy oedd wedi marcio'r waliau a pam.

5.2 Nododd y clerc fod CSYM wedi cadarnhau fod gwaith trin y palmant yng ngwaelod Bron y Graig mewn llaw.

5.3 Dim ymateb i ymholiad y clerc ynglyn a chyflwr y lon o Fodedern i Lanfugail, ond nodwyd rhai aelodau fod yn ymddangos fod y coed wedi'u torri.

5.4 Nododd y clerc fod swyddog adran dai CSYM wedi cadarnhau mae mater i'r adran briffyrdd oedd y gor dyfiant yng ngwrychynod Bro'r Ysgol. Dim ymateb gan adran briffyrdd eto.

5.5 Ymateb wedi ei dderbyn gan CSYM yn nodi eu pryder ynglyn ac ansawdd y biniau ond yn anffodus nid oes rhai arall ar y farchnad ar hyn o bryd, ac hefyd i gadarnhau eu bwriad i fonitro sut mae'r contractwyr yn ymdrin a'r biniau yn yr wythnosau nesaf.



Cyngor Cymuned Bodedern



6. Derbyn adroddiadau ynglyn a'r Maesd Chwarae gan cynrychiolydd Ffrindiau Bodedern.

6.1 Nododd y clerc ei bod wedi cael ymweliad gan unigolyn yn nodi ei fod wedi derbyn cais gan Ffrindiau Bodedern i dorri'r glaswellt yn y parc. Eglurodd y clerc fod contract mewn lle gyda cwmni i dorri'r gwair.

Cynigodd i ymgymryd a'r gwaith am hanner y pris y contract presennol, a gofynodd y clerc iddo gyflwyno pris yn ffurfiol erbyn adeg tendro ar gyfer y gwaith.

6.2 Roedd y clerc wedi derbyn cais i arwyddion "Plant yn Chwarae" gael eu gosod wrth y parc. Y clerc i wneud cais gydag CSYM am arwydd.

7. Deddf Cynllunio a Gwlad: I dderbyn unrhyw sylwadau ar geisiadau cynllunio a yrrwyd eisioes.

7.1 Cais o dan Adran 73 i ddiwygio amod (02) o caniatâd cynllunio rhif 13C192 (Cais llawn i ddymchwel yr annedd presennol, codi annedd newydd yn ei le ynghyd a gosod paced trin carthffosiaeth) er mwyn amnewid yr annedd ffrâm dau lawr sydd wedi'i ganiatáu gydag annedd un llawr dros y bwthyn presennol yn 2 Cefn Rhosydd. *Dim gwrthwynebiad.*

8. Gohebiaeth i'w adolygu.

Derbyniwyd ebost gan Un Llais Cymru yn cadarnhau'r hawl gan bob Cynghorwr i dderbyn lwfans o £150.00 tuag at unrhyw gostau y maent yn wynebu wrth gyflawni eu cyfrifoldebau fel cynghorwyr. Cytunodd y cynghorwyr yn bresennol i beidio a derbyn y lwfans, a fyddain daladwy o'r praespet, gyda pwysleisiad ar y dymuniad i gadw'r elfen gwirfoddol mewn sylw wrth gyflawni eu dyletswyddau. Y clerc i ddsbarthu'r wybodaeth i'r cynghorwyr sydd ddim yn breennol er mwyn iddynt wneud penderfyniad.

9. Talaidau i'w gwneud. Cytunwyd i wneud y taliadau canlynol:

9.1 Mon Grass Cutting	MGC2960	£360	Rhif siec 200074
9.2 Aon Insurance	2019-20	£581.77	Rhif siec 200075

10. Eitemau a ddaeth i sylw'r cyngor gan y cynghorwyr. Dim.

Yn dilyn cyflawni'r drafodaeth ar eitemau'r agenda, mynegodd **AJ** ei fwriad i ymddiswyddo fel cynghorwr. Er gwaethaf y ffaith ei fod wedi wynebu cam-drin eithafol a phersonnol ar adegau, roedd wedi parhau i wasanaethu yn y gymuned, ond teimlai fod yr amser bellach wedi cyrraedd i ymddiswyddo, a diolchodd i'r cyngor a'r clerc am eu cefnogaeth a'u gwaith. Mynegodd y cyngor eu tristwch yn ei benderfyniad, a diolchodd yn ddiffuant iddo am ei wasanaeth diflino, ei ymroddiad i'r gymuned ar hyd y blynyddoedd, ac am ei urddas yng ngwyneb cam drin personol yn y gorffennol. Nodwyd y byddai'r cyngor yn falch iawn o'i groesawu'n ol fel cynghorwr yn y dyfodol os byddai'n dymuno ail-ymuno yn dilyn cyfnod o seibiant.

11. Dyddiad cyfarfod nesaf: 24 Mehefin 2019



Clerc/ Clerk:
Ms. Rhian Wyn Owen,
Rhoscryman Bach, Llanfairynghornwy, LL65 4LS.

Ffôn dydd / Day tel: (01407) 740 940
Symudol / mobile: 07802 754 187
cyngorcymunedbodedern@outlook.com